

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWYD AR NOS LUN 28AIN O EBRILL 2014 YN YR KINMEL ARMS. LLANDYRNOG AM 7.00 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Jill Evans (Cadeirydd), Gwennan Hughes, Iwan Jones, Eirian Parry, Philip Williams, Barri Evans, Falmai Evans, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Stan Williams, Eirlys Jones a Hywel Davies.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR. Cadarnhawyd cofnodion 3lain o Fawrth 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gefnogaeth arian y Cyngor gan y Mudiadau canlynol:-

1. Cymdeithas Maes-y-Plwm.
2. Eglwys Dyfnog Sant, Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.
3. Ysgol Bro Cinmeirch.
4. Cylch Meithrin Llanrhaeadr.
5. Tal Aelodaeth Un Llais Cymru.

B. Derbyniwyd adroddiad y Cyngorydd Sir, Joe Welch. Ynglyn ar gyfarfod safle gyda'r perchnogion Cae'r Felin, Llanrhaeadr ynglyn ar ganghennau rhwng stadau Cae'r Felin a Pont-y-Bedol. Mae'r drafodaeth gyda Mr Adrian Walls o Gyngor Sir Ddinbych yn bodoli i ddatrys y berchnogaeth y coed.

C. Mae Mr Tudor Jones o Gwmni Cennin wedi dechrau sefydlu'r Wefan y Cyngor.

D. Mae'r Cyngorydd Barri Evans wedi trafod cynrychiolaeth Llywodraethwr y Cyngor Cymuned ar Ysgol Bro Cinmeirch ac mi fydd yn adroddi ymhellach yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

E. Derbyniwyd llythyr gan berchnogion Bryn Tirion, Saron ynglyn ar broblem ar dir tu ôl i'r preswyl. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gyrru copi o'r llythyr at Swyddog Cydymffurfio Cyngor Sir Ddinbych i ddatrys y broblem.

4. CYLLID.

A. Derbyniwyd rhan gyntaf o'r Precept am 2014/15 - £3.928.00.

B. Arwyddwyd y Cadeirydd a'r Clerc cyfrifon y Cyngor am y fiwyddyn yn diweddu 3 lain o Fawrth 2014.

C. Taliadau:-

1. AON - Yswiriant blynyddol y Cyngor - £524.97.
2. Cyngor Sir Ddinbych - Cyfarfod blaenorol y Cyngor - £15.00.
3. Harold Smith - Archwiliwr Mewnol y Cyngor - £144.00.
4. Jill Evans - Lwfans blynyddol y Cadeirydd - £250.00.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu ceisiadau cynllunio safle carafannau Cae'r Mynydd, Saron am drwy'r flwyddyn.

B. Ceisiadau cynllunio:-

1. Tyrbin wynt yn Hafoty Du, Saron - dim gwrthwynebiad trwy'r bleidlais mwyafrif.

2. Cais amlinell am 15 o dai ar dir gyferbyn a Llys Gwilym yn Llanrhaeadr - yr unig sylw oedd ychwanegu'r arwydd 40 filltir yr awr tuag at Fferm Pentre' yn Llanrhaeadr.

6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd trwy law'r Cynghorydd Philip Williams rhestr o gyrsiau hyfforddiant newydd Un Llais Cymru yn Abergele yn ystod mis Mai. Penderfynwyd y Clerc gofyn i Un Llais Cymru os oes modd cynnal cwrs hyfforddi trwy'r Cynghorau Cymunedol lleol.

B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau misol er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglyn ar ganlynol:-

1. Cyffordd Meifod, Saron eisiau wyneb newydd.

2. Arwydd wrth y Gof Golofn yn Llanrhaeadr eisiau ei ail osod.

3. Ffordd tuag at Penbrynllan yn Llanrhaeadr wedi ei malu.

4. Ffordd rhwng Plas Meifod a Bwlch-y-Gynnog yn Saron eisiau sylw.

B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gofyn am adroddiad gan Swyddog Cydymffurfio Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ynglyn ar llanast yng nghefn Ysgol Pant Pastynog.

C. Cytunodd y Cynghorydd Philip Williams i edrych i mewn i'r cyflwr y ffynnon agored ym Mhrion.

D. Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch ynglyn ar ddiweddaraf ynglyn ar faterion diogelwch y ffyrdd yn Llanrhaeadr.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Nos Lun 2il o Fehefn 2014 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion i ddilyn Cyfarfod Blyneddol y Cyngor.